COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGORA 1/2/3, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR DYDD MAWRTH, 22 HYDREF 2019, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | PJ White | HM Williams | D Patel |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |

415. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd RE Young

416. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd D Patel fuddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda gan fod Atodiad 1 o'r adroddiad yn cyfeirio at Ysgol Gynradd Bro Ogwr y mae hi'n llywodraethwr. Datganodd y Cynghorydd PJ White fuddiant personol yn eitem 10 ar yr agenda gan mai ef oedd yr aelod ward lleol ac nad oedd wedi cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig o safbwynt cynllunio.

417. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfodydd y Cabinet ar y dyddiadau canlynol yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir:-

Cyfarfod Arbennig – 10 Medi 2019
Cyfarfod Arferol – 17 Medi 2019

418. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018-19

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r swyddog S151 adroddiad ar ran y Prif Weithredwr ar gyfer ystyried Adroddiad Blynyddol 2019-19 (Atodiad A o'r adroddiad) i'w argymell i'r Cyngor ac i'w gymeradwyo.

Rhoddodd yr adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndirol a gadarnhaodd fod y cynllun yn diffinio 40 o ymrwymiadau i gyflawni'r tri amcan llesiant a nododd 58 o ddangosyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cadarnhau manylion am newyddion da, gan ein bod wedi perfformio'n dda yn gyffredinol yn 2018-19. O'r 40 o ymrwymiadau, cwblhawyd 35 (88%) yn llwyddiannus a'r 5 (12%) arall yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r cerrig milltir.

Nododd y cynllun corfforaethol 58 o ddangosyddion i fesur mynediad. O'r dangosyddion 56 gyda tharged, roedd 37 (66%) ar y trywydd iawn, 9 (16%) yn llai na 10% a 10 (18%) yn is na'r targed methu'r targed o gyfradd oedd yn fwy na 10%. Cynhwyswyd gwybodaeth fanwl am berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ymrwymiadau a'i dargedau yn Atodiad A.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog S151 fod yr Adroddiad Blynyddol yn ddogfen bwysig, gan ei bod yn rhoi gwybodaeth fanwl i ddinasyddion a rhanddeiliaid am berfformiad y Cyngor o ran diwallu amcanion a chanlyniadau llesiant. Roedd hefyd yn cynnwys mesurau cymaradwy Cenedlaethol i gynnig darlun llawn o sut oedd y Cyngor yn perfformio ar draws ystod o wasanaethau gwahanol.

Roedd yr Arweinydd o'r farn bod yr adroddiad a'r wybodaeth ategol yn gytbwys iawn ac yn cynnig darlun oedd yn gadarnhaol. Teimlai'r Arweinydd yn arbennig fod cyfeiriad at nifer o astudiaethau achos wedi dod â'r adroddiad yn fyw. Teimlai fod cyrraedd 88% o ymrwymiadau'r Cyngor yn rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i symud ymlaen. Cyfeiriodd hefyd at dudalen 25 o'r adroddiad lle'r oedd hyn yn manylu ar sut yr oedd amcanion llesiant y Cyngor yn cyd-fynd â'n nodau llesiant. Roedd hefyd yn falch nad oedd yr adroddiad yn cuddio agweddau o'n gwaith lle nad oedd y Cyngor yn cymharu mor ffafriol ag awdurdodau eraill.

Teimlai ei bod yn werth nodi hefyd ein bod y trydydd isaf yng Nghymru o ran canran y disgyblion a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 nad oedden nhw derbyn addysg bellach, cyflogaeth na hyfforddiant. Roedd hefyd restr o gamau gweithredu yn yr Adroddiad a oedd yn nodi sut yr oedd y Cyngor wedi bodloni ei amcanion.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar at dudalen 28 o'r Adroddiad Blynyddol oedd yn dangos fod y nodau llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol oedd wedi eu cyflawni ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Cyfeiriodd at y ffaith bod 81,767 sesiynau nofio di-dâl wedi'u cynnal i'r rhai dros 60 oed ar gyfer 5,000 o ddefnyddwyr unigol wedi'u cofnodi yn 2018-19, sef y cyfranogiad uchaf o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru o'r 22.

Dywedodd Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol mewn ymateb i gwestiwn ynghylch manylion nifer yr ymwelwyr oedd yn ymweld â chanol tref Porthcawl, fod y rhain yn ymddangos eu bod yn gymharol isel yn yr adroddiad. Ychwanegodd fod y ffigur hwn yn anghywir gan fod un o'r camerâu CCTV ddim yn gweithio o gwmpas yr amser y casglwyd y manylion hyn. Erbyn hyn roedd y camera hwn wedi'i drwsio a'i ailosod i safle gwell, ac yn dilyn hyn yn ystod chwarter cyntaf eleni, roedd nifer yr ymwelwyr â chanol y dref yn llawer mwy ffafriol nag mewn chwarteri tebyg y llynedd.

**PENDERFYNWYD**: Bod y Cabinet wedi ystyried yr Adroddiad Blynyddol 2018-19 yn Atodiad A o'r adroddiad a'i argymell i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

419. MONITRO'R GYLLIDEB 2019-20 - CHWARTER 2 RHAGOLWG REFENIW

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid dros dro adroddiad I'r Cabinet. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am sefyllfa ariannol refeniw y Cyngor ar 30 Medi 2019.

Fel cefndir, cadarnhaodd fod y Cyngor, ar 20 Chwefror 2019, wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net o £270.809 m ar gyfer 2019-20, a bod rhagamcanion y gyllideb yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u hadrodd i'r Cabinet bob chwarter.

Dangosodd hefyd baragraff 4 o'r adroddiad oedd yn dangos crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 30 Medi 2019, a adlewyrchai gyllideb refeniw net y cyngor a'r alldro rhagamcanol ar gyfer 2019-20 yn Nhabl 1 yn y rhan hon o'r adroddiad.

Mae'r sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar 30 Medi 2019 yn dangos tanwariant net o £575k, sy'n cynnwys £659 o wariant net ar gyfarwyddiaethau a £4,808,000 o danwariant net ar gyllidebau corfforaethol, wedi'i wrthbwyso gan neilltuadau net o £ 3.574 m ar gyfer cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Aeth y Pennaeth Cyllid dros dro ymlaen, drwy gadarnhau mai'r prif reswm dros y tanwariant o £3.8 m ar ' Cyllidebau Corfforaethol Eraill ' yw bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol am arian grant ychwanegol a fydd ar gael yn ystod 2019-20 i dalu am gostau uwch pensiynau athrawon, pensiynau'r gwasanaeth tân a chodiadau cyflog athrawon, a ariannwyd yn llawn yn wreiddiol drwy'r MTFS. Nodwyd dadansoddiad manwl o'r gwariant mwy sylweddol a ragwelwyd yn adran 4.3 yr adroddiad.

Yna, roedd paragraff 4.2 o'r adroddiad yn amlinellu gwybodaeth mewn perthynas â monitro cynigion i leihau'r gyllideb a pharagraff 4.2.2 yn cynnwys tabl 2 sy'n manylu ar ostyngiadau eithriadol yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad o £2.342m sy'n ddyledus, mae £1.795m yn debygol o gael ei gyflawni yn ystod 2019-20, gan adael diffyg o £547,000. Roedd paragraff 4.2.3 o'r adroddiad yn rhestru'r cynigion nad ydyn nhw'n debygol o gael eu cyflawni o ran lleihau'r diffyg mewn rhai meysydd.

Amlygodd Tabl 3 o'r adroddiad y broses o fonitro gostyngiadau yng nghyllideb 2019-20 lle nodwyd fod cyfanswm y gostyngiadau cyllidebol gofynnol yn £7.621m, gyda £6.492 yn debygol o gael eu cyflawni, gan adael diffyg o £1.129m.

Nododd Atodiad 2 swm rhagamcan yr arbediad yn erbyn y cynigion yn fanwl a chamau i'w cymryd gan y Gyfarwyddiaeth i liniaru'r diffyg.

Atodwyd crynodeb o'r sefyllfa ariannol ar gyfer pob prif faes gwasanaeth yn Atodiad 3 o'r adroddiad a darparwyd sylwadau ar yr amrywiannau mwyaf sylweddol fesul Cyfarwyddiaeth yn adrannau nesaf yr adroddiad. Rhoddwyd rhywfaint o naratif pellach ar gyllidebau eraill o fewn y Cyngor. Roedd Tabl 4, ym mharagraff 4.4.2 o'r adroddiad, yn rhoi manylion am gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn ystod Chwarter 2, a oedd yn cyfateb i £3.574m.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod heriau sylweddol o'n blaenau, er gwaethaf yr arbedion lefel yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor eu gwneud hyd yma o ganlyniad i galedi. Roedd peth dibyniaeth hefyd wedi'i roi ar swyddi gwag i staff er mwyn rheoli lefelau'r arbedion a oedd yn ofynnol o dan y MTFS. I'r perwyl hwn, nodwyd fod nifer o swyddi gwag ym maes iechyd a diogelwch o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg a gofynnwyd a oedd hyn yn cyfaddawdu'r Awdurdod mewn unrhyw ffordd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd y bu'n anodd recriwtio'n allanol yn y maes uchod, er bod yr adran wedi cynyddu o un Swyddog arbenigol i dri, gan gynnwys Rheolwr dros dro. Roedd yr adran yn bwriadu hyfforddi staff yn fewnol i lenwi unrhyw angen yma.

Dywedodd Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod rhywfaint o welliant wedi'i wneud hefyd o ran trefniadau cytundebol gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot wedi'i chytuno i wella'r pris presennol drwy fynd â'r cyfleuster yn ôl yn fewnol i'r Sir o 1 Hydref 2019.

Daeth yr arweinydd â'r drafodaeth i ben, drwy nodi bod gorwario o ran darparu Cludiant i Ddysgwyr ADY a'r rhai sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod hyn o ganlyniad i'r ffaith y bu'n rhaid cael cerbydau pwrpasol ychwanegol ar gyfer ADY er mwyn bodloni lefel y galw a oedd yn fwy na'r disgwyl a bod sefyllfa debyg yn berthnasol ar gyfer y nifer a dderbynnir ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg a'r rhai sy'n cael eu cludo/eu casglu o ganolfannau adnoddau dysgu.

**PENDERFYNWYD**:

Bod y Cabinet yn nodi y refeniw a ragwelir ar gyfer 2019-20.

420. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN GYFALAF - CHWARTER 2, 2019-20

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r swyddog S151 adroddiad. Pwrpas yr adroddiad oedd:-

• cydymffurfio â gofynion Cod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer cyllid cyfalaf 2018,

• rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019-20 ar 30 Medi 2019 (Atodiad A o'r adroddiad).

• ceisio cytundeb y Cabinet i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019-20 hyd at 2028-29 (Atodiad B).

• nodi'r Dangosyddion Darbodus a Rhagamcanol Eraill ar gyfer 2019-20 (Atodiad C).

Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwybodaeth gefndirol benodol, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 fel ei diwygiwyd, yn cynnwys darpariaethau manwl ar gyfer y cyllid cyfalaf a'r rheolaethau cyfrifyddu, gan gynnwys y rheolau ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf a'r hyn sydd i'w drin fel gwariant cyfalaf. Maen nhw'n addasu arfer cyfrifo mewn ffyrdd amrywiol i atal effeithiau andwyol ar adnoddau refeniw awdurdodau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog S151 dros dro, ar 20 Chwefror 2019, fod y Cyngor wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod 2019-20 hyd at 2028-29 fel rhan o'r strategaeth ariannol tymor canolig (MTFS).

Cafodd y rhaglen gyfalaf ei diweddaru diwethaf a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Gorffennaf 2019. Roedd yr adroddiad gerbron yr Aelodau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd canlynol:

• Monitro Rhaglen Gyfalaf 2019-20;
• Rhaglen Gyfalaf 2019-20 ymlaen;
• Monitro'r Prudential a dangosyddion eraill;
• Monitro'r Strategaeth Gyfalaf.

Mewn perthynas â'r Rhaglen Gyfalaf 2019-20 Monitro roedd Tabl 1 ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad, yn adlewyrchu'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth am 2019-20.

Cyfanswm ariannol y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2019-20 yw £38.133m ar hyn o bryd, a chaiff £18.504m ei gyflawni o adnoddau BCBC, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf a

chyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi, gyda'r £19.629m sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol.

Roedd Tabl 2 yn yr adroddiad yn crynhoi'r rhagdybiaethau ariannu cyfredol ar gyfer y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019-20.

Roedd Atodiad A o'r adroddiad yn rhoi manylion y cynlluniau unigol o fewn y Rhaglen Gyfalaf, gan ddangos y gyllideb a oedd ar gael yn 2019-20 o gymharu â'r gwariant a ragwelwyd.

Mae nifer o gynlluniau eisoes wedi'u nodi fel rhai sydd angen llithriant yn y gyllideb i flynyddoedd i ddod (2020-21 a thu hwnt). Yn Chwarter 2, £18,858,000 yw cyfanswm y llithriant y gofynnwyd amdano, sy'n cynnwys y cynlluniau a restrir ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Roedd paragraff 4.5 o'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y rhaglen gyfalaf o 2019-20 ymlaen ac, yn benodol, cadarnhawyd fod nifer o gynlluniau newydd a ariannwyd yn allanol wedi'u cymeradwyo ers i'r adroddiad cyfalaf diwethaf gael ei ystyried ym mis Gorffennaf 2019 wedi'u hymgorffori yn y Rhaglen Gyfalaf a chafodd y rhain eu rhestru yn yr adran hon o'r adroddiad.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r swyddog S151 fod nifer o gynlluniau eraill o fewn y rhaglen gyfalaf a oedd yn aros am gadarnhad o gyllid allanol dros gyfnod yr Hydref, ac ar hyn o bryd, nid oedd y rhaglen gyfalaf wedi'i diweddaru i gymryd ystyried o’r rhain.

Roedd adrannau olaf yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth mewn perthynas â'r Prudential a Dangosyddion Eraill 2019-20 Monitro a Monitro Strategaeth Cyfalaf, tra bod y goblygiadau ariannol wedi'u hamlinellu yng nghorff yr adroddiad.

Roedd yr Arweinydd yn teimlo bod prosiectau cyffrous iawn yn cael eu cynnig fel sy’n cael eu nodi yn yr adroddiad. Roedd y prosiectau hyn yn cynnwys Canolfan Gymunedol yn Ysgol Gyfun Brynteg, Parc Rhanbarthol y Cymoedd (VRP) yn Bryngarw a Pharc Slip ac roedd yn falch o weld cyllid grant yn dod gan Lywodraeth Cymru i'r Rhaglen Gyfalaf a oedd yn cynnwys y Grant Ysgogi Economaidd. Croesawodd hefyd y £800k a oedd wedi'i glustnodi ar gyfer seilwaith y priffyrdd.

Gofynnodd Aelodau'r Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar am y wybodaeth ddiweddaraf ar Rwydwaith Gwres Caerau, gan fod yr adroddiad yn cadarnhau bod y cynllun wedi cyrraedd ei gamau terfynol o ran derbyn cymeradwyaeth gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Byddai cwblhau hyn yn helpu i leihau allyriadau carbon yn y rhan hon o'r Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.

Nododd y Prif Weithredwr fod yr oedi wedi bod gyda Llywodraeth Cymru yn hytrach na’r Awdurdod, ond roedd yn obeithiol y byddai'r prosiect hwn yn mynd yn ei flaen o fewn y 6 mis nesaf, a dyna pam y cafodd y cynllun hwn ei gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cabinet:

(1) yn nodi Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2019-20 ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Medi 2019 (gweler Atodiad A o’r adroddiad).
(2) Cytuno fod y Rhaglen Gyfalaf (Atodiad B o’r adroddiad) i’w gyflwyno i’r Cyngor i dderbyn eu cymeradwyaeth.
(3) Nodi Dangosyddion Prudential a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2019-20 (Atodiad C o’r adroddiad).

421. CYNLLUN GWARANTU CYFWELIAD I GYN-FILWYR

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn cynghori'r Cabinet ynghylch cyflwyno cynllun gwarantu cyfweliad i gyn-filwyr, fel rhan o weithdrefnau recriwtio a dethol y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn nodi y gall hi fod yn heriol iawn i gyn-filwyr i wneud y newid i fywyd sifil, yn enwedig o ran dod o hyd i waith parhaol, er bod ganddyn nhw'r sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr fel sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad.

Eglurodd fod y cynllun gwarantu cyfweliad i gyn-filwyr yn rhoi gwarant o gyfweliad i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol fel y'u nodir mewn unrhyw becyn swydd perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd yn gwarantu cyflogaeth, gan fod gweithdrefnau dethol yn sicrhau bod yr ymgeisydd gorau ar gyfer unrhyw swydd yn cael ei benodi.

Gall y cynllun uchod ynghyd â chymorth pellach i gyn-filwyr eu helpu i oresgyn y rhwystrau i ddod o hyd i gyflogaeth sifil a helpu i leihau'r risg o broblemau iechyd a lles o ganlyniad i ddiweithdra hirdymor.

Mae cyflwyno'r cynllun gwarantu cyfweliad hwn yn cefnogi Cyfamod Cymuned y Lluoedd Arfog y BCBC.

Ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad, cadarnhawyd y telerau cymhwysedd ar gyfer y cynllun a'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr pe bai cynigion yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, yna byddai proses recriwtio'r awdurdod yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r uchod.

Canmolodd yr Arweinydd yr adroddiad ac ychwanegodd y byddai'r cynllun gwarantu cyfweliad yn un dull ychwanegol o gynorthwyo cyn-filwyr. Roedd y gefnogaeth hefyd yn cynnwys sesiynau nofio am ddim, gwneud gwaith addasu i'w lle byw yn ôl yr angen a blaenoriaethu unrhyw geisiadau maen nhw'n yn ei wneud am dy i fyw ynddo.

**PENDERFYNWYD**: Bod y Cabinet yn nodi fod y cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer cyn-filwyr yn cael ei weithredu.

422. PROSIECT BUDDSODDI MEWN YNNI CYFALAF A STRATEGAETH YNNI A CHARBON LANDLORDIAID CORFFORAETHOL

Cyflwynodd Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y prosiect Buddsoddi mewn Ynni Cyfalaf a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddefnyddio'r Fframwaith Re:fit ac i anfon gwahoddiad i dendro ar gyfer y gwaith yn ogystal â cheisio cymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Ynni a Charbon Corfforaethol 2019.

Dywedodd, ym mis Chwefror 2018, fel rhan o'r strategaeth ariannol tymor canolig 2018-19 hyd at 2021-22, y dylai'r Cyngor gymeradwyo cyllid cyfalaf o £1.3m i'w alluogi i gyflawni'r prosiect Buddsoddi mewn Ynni Cyfalaf. Byddai hyn yn cael ei ariannu drwy fenthyca darbodus gydag ad-daliadau o arbedion ynni a ennillwyd o ganlyniad i'r buddsoddiad.

Roedd Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r Cyngor ystyried cyflwyno mesurau arbed carbon gan ddefnyddio'r rhaglen Re:fit. Mae Re:fit yn fframwaith perfformiad ynni a baratowyd gan bartneriaethau lleol LLP (sy'n fenter ar y cyd sy'n eiddo i Drysorlys EM a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ac a sefydlwyd yn 2009) ac mae'n arbenigo mewn

cyflawni prosiectau ôl-ffitio ar gyfer adeiladau i'r sector gyhoeddus. Mae Re:fit wedi cyflawni prosiectau ledled y DU ond hefyd i lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, fel Caerdydd, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Merthyr Tudful, i enwi ond un neu ddau.

Yna, cadarnhaodd yr adroddiad, yn dilyn cynnal adolygiad o nifer o opsiynau, fod swyddogion y Cyngor wedi penderfynu mai defnyddio'r fframwaith Re:fit fyddai'n darparu'r model mwyaf priodol ar gyfer darparu buddsoddiad cyfalaf.

Nodwyd bod 22 o adeiladau fel y dangosir yn Atodiad 1 yn cyflawni'r mesurau mwyaf effeithiol mewn perthynas â'r uchod, a dangoswyd y rhain yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Mae cysylltu â'r rhanddeiliaid hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd

O ran y Strategaeth Ynni a Charbon Corfforaethol 2019, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol, ei bod yn debyg i'r prosiect Buddsoddi Cyfalaf mewn Ynni, fod Swyddogion wedi bod yn gweithio i baratoi hyn fel y gallai helpu i wella'r broses o reoli ynni a'r allyriadau carbon a gynhyrchir gan y Cyngor.

Pennwyd amcanion allweddol i'w dilyn yma ac er mwyn bodloni'r rhain, nodwyd cyfres o gamau gweithredu a gweithgareddau. Fe ddangoswyd y rhain mewn 8 maes allweddol a ddangosir ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad.

Atodwyd copi o'r Strategaeth Ynni a Charbon oedd yn cael ei gynnig ei gymeradwyo gan y Cabinet i'r adroddiad yn Atodiad 2.

Daeth y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol â'i gyflwyniad i ben drwy roi crynodeb o oblygiadau ariannol yr adroddiad.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn teimlo bod hwn yn adroddiad amserol a chyfeiriodd at y ffaith bod BCBC eisoes wedi cymeradwyo £1.3m o gyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect buddsoddi mewn ynni cyfalaf gan ddefnyddio benthyca darbodus, gyda chyfnod ad-dalu o 5 mlynedd. Pe bai hyn yn cael ei wireddu'n llawn, yna byddai'r prosiect yn ariannu ei hun.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles ei fod yn falch o nodi bod y Prosiect Buddsoddi mewn Ynni Cyfalaf yn cael ei gyflwyno yn rhai o ysgolion yr Awdurdod. Gofynnodd a oedd modd iddyn nhw fod yn rhan o'r gwaith o brosesu'r holl waith drwy gynghorau eco yr ysgolion.

Dywedodd Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol y byddai hyn o bosibl ac y byddai'n cysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â hyn.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod adran ar ysgolion ecogyfeillgar yn yr Adroddiad Blynyddol a ystyriwyd yn gynharach yn ystod y cyfarfod, ac roedd yn falch o allu cadarnhau, bod y rhan fwyaf o ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol wedi ennill statws Baner Werdd, gyda thua 50% ohonyn nhw wedi cyflawni'r lefel uchaf bosibl sef Gwobr Platinwm.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cabinet:

- Yn nodi cynnwys yr adroddiad
- Yn cymeradwyo'r defnydd o Fframwaith Re:fit ac yn estyn gwahoddiad Tendr gan ddefnyddio fframwaith Re:fit I ddewis y darparwr gwasanaeth i weithredu'r prosiect ynni cyfalaf ynghyd â'r mesurau arbed ynni cysylltiol.

- Yn rhoi awdurdod dirprwyedig i Ddirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau i ddyfarnu gosod y contract i’r ymgeisydd llwyddiannus o dan Gynllun A o’r Cynllun Dirprwyo.
- Cymeradwyo mabwysiadu a chyflawni'r Strategaeth Ynni Corfforaethol a’r Strategaeth Garbon 2019.
- Dirprwyo’r awdurdod am gymeradwyo unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i’r Strategaeth Ynni Corfforaethol a’r Strategaeth Garbon 2019 i Fwrdd Corfforaethol Prosiect y Landlordiaid.

423. CAEAU CHWARAE, CYFLEUSTERAU CHWARAEON AWYR AGORED, PARCIAU A PHAFILIYNAU

Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi adborth manwl i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 17 Ebrill a 10 Gorffennaf 2019, ar gynigion i sicrhau bod y Cyngor yn darparu caeau chwarae, lleiniau chwaraeon awyr agored a phafiliynau yn fwy cynaliadwy yn ariannol yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhellion i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfleusterau'n ariannol gynaliadwy yn y dyfodol ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cyfredol Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT).

Ar 18 Medi 2018 fe gymeradwyodd y Cabinet ymgynghoriad ar gynigion i wneud darpariaeth y Cyngor o gaeau chwarae, cyfleusterau chwaraeon awyr agored a phafiliynau yn fwy cynaliadwy yn ariannol.

Cydnabyddir bod darparu'r cyfleusterau hyn yn chwarae rhan bwysig i helpu i sicrhau bywyd iachach a lefelau uwch o les corfforol a meddyliol i drigolion y Fwrdeistref Sirol.

Atodir rhestr o bafiliynau a chaeau chwarae a reolir gan Adran Parciau'r Cyngor yn Atodiad A o'r adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod cynigion strategaeth ariannol tymor canolig ar hyn o bryd yn ymwneud ag arbedion ym meysydd chwarae, cyfleusterau chwaraeon awyr agored a phafiliynau, sef cyfanswm o £69k yn 2019-20 ac arbediad dangosol pellach o £369k yn 2020-21. Roedd hyn yn gyfanswm o arbediad o £438k i gyd.

Roedd paragraffau 4.1 i 4.7 o'r adroddiad wedyn yn rhoi diweddariad cynhwysfawr ynghylch â’r cynnydd mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedol (CAT) mewn perthynas â'r cyfleusterau uchod. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud gyda CAT, nid oedd wedi bod i'r graddau na'r lefel a ragwelwyd yn flaenorol.

Roedd adran nesaf yr adroddiad, h.y. o baragraffau 4.8 i 4.13 yn amlinellu'r rhan yr oedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen CAT wedi'i chwarae yng nghefnogaeth CAT gan gynnwys mewnbwn i'r broses graffu, a oedd wedi darparu cyfeiriad strategol mewn perthynas â rhaglen CAT y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys polisïau, systemau a phrosesau cysylltiedig. Roedd paragraff 4.9 yn rhestru’r prif argymhellion oedd yn deillio o Grŵp Gorchwyl a Gorffen CAT a ddaeth â'u hadolygiad i ben ym mis Chwefror 2019. Mewn perthynas â hyn, roedd y grŵp wedi cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar 23 Gorffennaf 2019, a fyddai'n rhoi blaenoriaeth i fireinio'r asedau ar gyfer CAT er mwyn gallu blaenoriaethu'r arbedion angenrheidiol o dan y MTFS yn unol â hynny.

Ar ôl hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion a oedd yn ofynnol i sicrhau'r arbedion yr oedd angen eu gwneud, er mwyn casglu barn y cyhoedd a defnyddwyr y cyfleusterau am farn ar effaith bosibl y newidiadau y byddai eu hangen wrth symud

ymlaen, er mwyn cyflawni hyn. Atodir y ddogfen ymgynghori yn Atodiad B i'r adroddiad ac er bod paragraff 4.17 o'r adroddiad yn amlinellu rhai pwyntiau amlwg a dderbyniwyd ar yr ymgynghoriad, amlygodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol hefyd rai o'r rhain er budd yr Aelodau.

Roedd paragraffau 4.18 i 4.36 o'r adroddiad yn rhoi mwy o wybodaeth am yr adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynigion o ran y ddarpariaeth i'r ardaloedd Chwarae.
- Lleihau'r gwaith cynnal a chadw ar laswelltir agored ac ymylon priffyrdd.
- Lleihau torri gwair mewn parciau, a
- Cynnig i gynyddu taliadau ar gyfer defnyddio caeau chwarae a pafiliynau chwaraeon i arbed costau.

Dywedodd Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol, pe na bai clybiau chwaraeon neu grwpiau cymunedol yn gallu cynnal CAT, byddai'r lefelau ffioedd arfaethedig yn weithredol fel y nodir yn Atodiad E yr adroddiad. Mae'r ffioedd hyn yn adlewyrchu costau cynnal a chadw a rhedeg blynyddol nodweddiadol ar gyfer caeau chwarae a phafiliynau. Fodd bynnag, byddai angen i'r rhain gael eu teilwra gan y defnydd a ragwelir o glybiau a sefydliadau unigol. Fodd bynnag, mae'r ffigurau a'r gweithgareddau'n cynnig canllaw rhesymol i'r gwariant presennol yn erbyn lefelau presennol y cymhorthdal.

Cyn cau ei gyflwyniad, cyfeiriodd wedyn at yr adroddiadau ariannol, a oedd yn ailadrodd bod cyfanswm o £438k mewn arbedion o dan gynllun ariannol tymor canolig y Cyngor wedi'i glustnodi yn y maes hwn dros y ddwy flynedd nesaf.

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd fod yr adroddiad hwn yn heriol ac nad oedd y Cyngor am fod yn y sefyllfa i wneud rhai o'r cynigion a oedd yn cael eu gwneud yn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd lefel yr arbedion a oedd angen eu gwneud yn sylweddol a phe na bai'r rhain yn cael eu gwneud yn y maes hwn, yna byddai'n rhaid eu gwneud mewn maes arall o fewn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod y Cyngor ar hyn o bryd yn rheoli 34 o bafiliynau/caeau chwarae chwaraeon ac wedi gwneud hynny ers amser hir iawn. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd sydd ohoni, ni fyddai modd cynnal y costau cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â hyn yn ariannol mwyach. Felly, roedd angen edrych ar ffyrdd amgen o wneud hyn, gan gynnwys cynigion hunanreoli drwy'r broses CAT a/neu gan glybiau a chymdeithasau a chynghorau tref/cymuned yn ysgwyddo'r asedau hyn o ran costau rhedeg a chynnal a chadw.

Roedd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio o'r farn y gellid rhoi trefniant methodoleg Ymddiriedolaeth Datblygu ar waith er mwyn helpu pobl i feddiannu'r meysydd posibl eraill fel y rhai a nodir uchod ac yn yr adroddiad.

Anogodd gynghorau tref/cymuned i gynorthwyo yma drwy gynyddu eu praesept a chymryd drosodd cyfleusterau o'r fath drwy'r ddulliau a awgrymwyd.

Ychwanegodd fod gan rai clybiau arian, er enghraifft, drwy godi tâl ar y cyhoedd am gael gweld gemau a rhai ar y bar a allai helpu i helpu i brynu eu cae/pafiliwn chwaraeon lleol. Ychwanegodd hefyd y gallai cefnogaeth ariannol gael ei chyflawni gan sefydliadau cenedlaethol, er enghraifft y Gymdeithas Bêl-droed ac Undeb Rygbi Cymru. Teimlai ei bod yn arbennig o bwysig darparu cymorth parhaus i'r defnydd o'r cyfleusterau hyn gan yr henoed a grwpiau lleiafrifol ac felly awgrymodd y dylai'r Cabinet dderbyn adroddiad pellach ar hyn yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r cyfleusterau uchod yn wynebu cael eu cau pe na bai cymorth yn cael ei ddarparu gan rai fel clybiau a chymdeithasau neu efallai gynghorau tref/cymuned, gan na allai'r Cyngor ddarparu'r lefel o gynhaliaeth a oedd yn y gorffennol oherwydd lefel yr arbedion yr oedd yn rhaid eu gweithredu o dan MTFS. Ychwanegodd fod yr ymatebion i holl elfennau'r ymgynghoriad wedi bod ychydig yn gymysg, ond roedd llawer o glybiau/cymdeithasau wedi bod yn gefnogol i gynigion y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor eto wedi gorfod dod o hyd i £36m o arbedion ar draws ei holl gyfarwyddiaethau dros y 4 blynedd nesaf a bod hyn yn ychwanegol at yr arbedion helaeth a wnaed ganddo hyd yma ers y dirwasgiad a'r cyfnod o lymder. Hyd yn oed pe bai'r Awdurdod yn derbyn cynnydd yn ei grant cynnal refeniw, byddai'r gwasgu'n parhau o ran cyflawni gofynion statudol ei gyfrifoldebau yn y cyfarwyddiaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol lle'r oedd, fel yn y blynyddoedd blaenorol, heriau parhaus sy'n rhaid eu cyflawni. Roedd cryn gostau hefyd o ran chwyddiant cyflogau.

Roedd lefel y cymhorthdal a ddarparwyd yn hanesyddol ar gyfer y cyfleusterau a oedd yn destun yr adroddiad hwn yn 80%, ac yn syml iawn, ni allai'r Cyngor gynnal y lefel hon yn y dyfodol. Ychwanegodd nad oedd llawer o wasanaethau eraill yn cael cymhorthdal i'r graddau yma. Roedd llawer o glybiau a chymdeithasau wedi cysylltu â'r Cyngor mewn ffordd gadarnhaol yn ystod y broses ymgynghori. Roedd nifer o ffyrdd o'u cynorthwyo i ariannu pafiliynau chwaraeon a chaeau chwarae fel drwy'r broses CAT lle bydden nhw'n cael rhywfaint o gymorth ariannol o ran cyllid. Roedd y cyfleuster newydd yng Nghlwb Rygbi Bryncethin yn enghraifft dda o hyn.

Ychwanegodd y byddai'r Cyngor yn ystyried sefydlu cronfa ar wahân i gefnogi clybiau iau a chlybiau mini, h.y. o dan 18 oed, gan eu bod mewn sefyllfa lai ffafriol nag uwch dimau i hunan-ariannu eu hunain. Byddai'r Cyngor hefyd yn ceisio cefnogi'r henoed hefyd mewn modd tebyg, er mwyn eu hannog i barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, er budd eu hiechyd a'u lles yn y dyfodol.

Daeth yr Aelod Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles a'r drafodaeth ar yr eitem bwysig hon i ben, drwy ddweud y gallai grwpiau dan anfantais, gobeithio, gael cymorth ariannol drwy unrhyw gronfa a sefydlir at y diben hwn.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwywyd y canlynol gan y Cabinet:-

- Lleihau'r cyfnodau roedd yn borfa'n cael ei thorri ar ymylon ffyrdd a glaswelltir agored o 7 i 5 gwaith y flwyddyn.
- Dirprwyo awdurdod i'r Aelod Cabinet - Cymunedau o gymeradwyo'r ardaloedd a nodwyd lle gellir rhoi'r gorau i dorri porfa.
- Terfynu trefniadau grant a chysoni trefniadau prydlesu presennol â Chlybiau Bowlio i adlewyrchu'r egwyddorion o adennill costau llawn.
- Cynyddu taliadau ffioedd o Fedi 2020 i ddefnyddwyr cyfleusterau, gydag Atodiad E i'r adroddiad yn cael ei ddefnyddio fel canllaw cyffredinol i'r costau ar hyn o bryd (gyda'r costau gwirioneddol yn cael eu penderfynu yn y dyfodol) os nad yw'r cyfleusterau'n rhan o Drosglwyddiad Ased Cymunedol (CAT).
- Dirprwyo awdurdod i'r Aelod Cabinet - Cymunedau o gymeradwyaeth ar gyfer strategaeth ar wahân ar gyfer caeau Trecelyn.

- O ran yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) sydd ynghlwm yn Atodiad D o'r adroddiad ac, yn benodol, tudalen 126/127 o'r EIA, lle cyfeirir at ymatebion i'r ymgynghoriad lle yr awgrymwyd y gallai fod effaith yn codi o argymhellion yr adroddiad ar ddatblygiad plant, iechyd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gydag unrhyw effaith o'r fath yn ymwneud yn benodol â "phobl iau a hŷn mewn cymdeithas," dylid neilltuo cronfa ar gyfer y categori hwn o ddefnyddwyr er mwyn iddyn nhw ddarparu cymorth parhaus ar gyfer eu mynediad i'r cyfleusterau. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon posibl y gallai'r cynigion eu cynnig ar y categori hwn o ddefnyddiwr, gan gynnwys unrhyw effaith niweidiol ar eu hiechyd a'u lles yn y dyfodol. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn gynted â phosibl, yn amlinellu manylion y gronfa hon a'r defnyddwyr y bydd yn eu cefnogi.

- Nodwyd y bydd swyddogion yn parhau i hyrwyddo'r broses o drosglwyddo asedau cymunedol mewn ardaloedd chwarae plant i gynghorau tref a chymuned berthnasol.

424. <u>ADRAN 123 (2A) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972: GWAREDU TIR AR YSTÂD DDIWYDIANNOL FORGE, MAESTEG</u>

Cyflwynodd Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol adroddiad, er mwyn i'r Cabinet wneud penderfyniad ynghylch a ddylid darparu'r tir a oedd yn eiddo i'r cyngor uchod ac a ystyrir yn dir agored cyhoeddus, i'w waredu.

Esboniodd fod cais wedi dod i law oddi wrth fusnes presennol sydd wedi'u lleoli ar Stad Ddiwydiannol Forge, Maesteg, i brynu parsel o dir sy'n eiddo i'r Cyngor i hwyluso'r broses o greu lle ychwanegol i'r ffatri.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r darpar brynwr, cytunwyd ar bris prynu ar gyfer y parsel o dir. Amlinellir y tir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Gan fod y tir dan sylw yn ffurfio rhan o ardal ehangach o ofod gwyrdd, ni fydd unrhyw anfantais o ganlyniad i golli'r parsel bach o ofod agored.

Roedd y cynnig yn un cadarnhaol os byddai'n cael ei gymeradwyo hefyd. Ychwanegodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol, y byddai gwerthu tir yn arwain at greu 10 swydd lawn-amser newydd yn y ffatri uchod.

Roedd un gwrthwynebiad i'r cynnig, fodd bynnag, tynnodd yr adroddiad sylw (ym mharagraff 4.4) at y ffaith na phrofwyd bod hyn yn ddilys.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn fodlon â'r adroddiad, yn enwedig o gofio y byddai gwerthu tir yn arwain at greu cyfleoedd cyflogaeth.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles a oes rhaid cael gwared ar unrhyw goed neu lwyni bach o ganlyniad i'r trafodiad tir, yna a ellid ail-blannu'r rhain mewn ardal arall yn y Cwm hwn ac unwaith eto gallai disgyblion yr ysgol leol gynorthwyo gyda'r ail-blannu. Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol y gellid dilyn y ddau awgrym hyn.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y Cabinet ar ôl ystyried yr adroddiad a'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Hysbysiadau a gyhoeddwyd yn unol ag Adran 123 (2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, wedi awdurdodi gwaredu'r tir ar Ystad Ddiwydiannol Forge, Maesteg.

425. <u>DIWEDDARIAD CAFFAEL</u>

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol adroddiad, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am Siarter Dur y DU, Cod Ymarfer - Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi, Model Economi Sylfaen Llywodraeth Cymru - Gwell Swyddi yn Nes at y Cartref, Grŵp Cyflawni De-ddwyrain Cymru a Pholisi Cyfrif Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru a cheisio:-

- Llofnodi Siarter Dur y DU gyda'r nod o weithio tuag at ymrwymiadau cyraeddadwy o fewn y Siarter os yw'n rhesymol gwneud hynny.

- Llofnodi'r Cod Ymarfer - Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi gyda'r nod o weithio tuag at ymrwymiadau cyraeddadwy o fewn y cod os yw hynny'n rhesymol.

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithio tuag at egwyddorion y Model Economi Sylfaen - Gwell Swyddi yn Nes at Adref - Adeiladu Cyfoeth Lleol wrth gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau.

- Cytuno y dylai'r Cyngor gymryd rhan yng Ngrŵp Cyflawni De-ddwyrain Cymru ar gyfer cytundebau fframwaith cydweithredol cyffredin ac ailadroddus, os ydyn nhw'n darparu gwerth am arian i'r Cyngor.

- Mabwysiadu'r egwyddorion ym Mholisi Llywodraeth Cymru ar Gyfrifon Banc Prosiectau a chymhwyso taliadau drwy gyfrifon banc prosiectau ar gontractau lle tybir bod eu cais yn briodol ac yn rhesymol i wneud hynny.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu rhywfaint o wybodaeth gefndirol mewn perthynas â Siarter Dur y DU, Cod Ymarfer - Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi, Model yr Economi Sylfaen - Gwell Swyddi yn Nes at Adref - Adeiladu Cyfoeth Lleol, Grŵp Cyflawni De-ddwyrain Cymru a Pholisi Cyfrif Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru.

O ran Grŵp Cyflenwi De-ddwyrain Cymru, mae'r adroddiad yn nodi ym mharagraff 3.4.4 ar gyfer cyflawni contractau cydweithredol gan Lywodraeth Leol ar ôl 2020, mae'n amlwg bod ffafriaeth i sefydlu trefniadau cyflenwi rhanbarthol, am y 3 rheswm a roddir ar ffurf pwyntiau bwled yn yr adran hon o'r adroddiad.

Yna fe ymhelaethodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol ar sefyllfa bresennol yr adroddiad, gan roi rhesymau pam yr oedd angen i'r Cyngor ystyried cadw at y cynigion a nodir yn y pwyntiau bwled uchod a llofnodi ar eu cyfer.

Yna esboniodd o ran Adran 5 o'r adroddiad, y bydd angen diweddaru'r Rheolau Gweithdrefnau ar gyfer contractau'r Cyngor er mwyn cydymffurfio ag ymrwymiadau Siarter Dur y DU, y Cod Ymarfer - Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi a chyfeirio at ofynion perthnasol Polisi Cyfrifon Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru.

O ran goblygiadau ariannol yr adroddiad, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol y byddai'r rhain yn fach iawn ar hyn o bryd, ond roedd potensial y byddai goblygiadau cost i'r Cyngor wrth symud ymlaen i'r dyfodol. Fe ychwanegodd y Pennaeth y byddai hi'n paratoi adroddiad i'r Cabinet os byddai'r argymhellion hyn yn dod i rym.

Dywedodd yr Arweinydd fod cryn dipyn o waith wedi'i roi ar baratoi'r adroddiad i'r Aelodau, ac a oedd wedi bod yn destun ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu yn ogystal â chynnal trafodaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru. Byddai cynigion yr adroddiad, os cânt eu gweithredu, yn helpu i gefnogi'r economi leol, gan gynnwys busnesau lleol. Roedden nhw hefyd wedi cael eu profi ac wedi profi'n llwyddiannus mewn meysydd eraill, ychwanegodd.

Daeth y Dirprwy Arweinydd i ben â'r drafodaeth ar yr eitem hon, drwy gynghori bod y Cyngor yn caffael nwyddau a gwasanaethau gwerth £160m a bod hyn yn cael effaith sylweddol nid yn unig ar yr economi leol ond ar yr amgylchedd ehangach, ac y byddai argymhellion yr adroddiad, a gefnogai, yn cynyddu hynny ymhellach fyth.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cabinet yn:

- Ymrwymo i Siarter Ddur y DU gyda'r nod o weithio tuag at ymrwymo i'r camau yr ystyrir eu bod yn gyraeddadwy ai bod yn rhesymol i wneud hynny.

- Ymrwymo i ddechrau'r Cod Ymarfer - Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi gyda'r nod o weithio tuag at gyflawni'r ymrwymiadau o fewn y Cod yn y dyfodol os bernir eu bod yn rhesymol gwneud hynny.

- Cytuno gyda gweithio tuag at y Model Economi Sylfaen.

- Cytuno bod Pen-y-bont ar Ogwr i gymryd rhan yng Ngrŵp Cyflawni De-ddwyrain Cymru.

- Mabwysiadu'r egwyddorion a gynhwysir ym Mholisi Llywodraeth Cymru ar Gyfrifon Banc Prosiect a chymhwyso taliadau drwy PBA ar gontractau lle tybir bod eu cais yn briodol ac yn rhesymol i wneud hynny.

426. ADRODDIAD GWYBODAETH AR GYFER NODI

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol adroddiad a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet am yr Adroddiad Gwybodaeth i'w nodi a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf.

Amlinellwyd y manylion ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad gyda'r adroddiad o'r enw 'Rheolaeth y Trysorlys - Adroddiad Hanner Blwyddyn 2019-20' a gyhoeddwyd ar 16 Hydref 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen uchod a restrir yn yr adroddiad hwn.

427. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:45